## Cylch Gorchwyl:
### GRŴP TROSOLWG STRATEGOL CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Yn adrodd i'r: Pwyllgor Gweithredol y Brifysgol

Yn cwrdd: Tairgwaith y flwyddyn

*Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Hydref 2022; diwygiwyd ddiwethaf: Hydref 2022; ac i'w adolygu nesaf: Hydref 2024.*

---

Aelodau:

- Cadeirydd (Dirprwy Is-Ganghellor gyda chyfrifoldeb ar lefel weithredol am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Dirprwy Is-Ganghellor gyda chyfrifoldeb am Rywedd
- Dirprwy Is-Ganghellor gyda chyfrifoldeb am Ethnigrwydd
- Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (neu Ddirprwy)
- Pennaeth Adnoddau Dynol
- Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus
- Cyfarwyddwr Marchnata Byd-eang a Recriwtio Myfyrwyr (neu Ddirprwy)
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr
- Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cadeirydd rhwydwaith Staff Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig
- Cadeirydd rhwydwaith staff LHDTA
- Prif Swyddog Gweithredol Undeb y Myfyrwyr
- Swyddog Undeb y Myfyrwyr
- 1x Rheolwr Cyfadran
- 1x Cynrychiolydd Undeb Llafur
- 1x Cynrychiolydd y Senedd

16 aelod.

Cworwm: 9 aelod.

Yn gweinyddu:

Yn ôl disgresiwn y Cadeirydd gwahoddir swyddogion eraill y Brifysgol, fel y bo'n briodol, i fynychu cyfarfodydd. Bydd gan aelodau'r hawl i drefnu i ddirprwy ddod i gyfarfodydd unigol ar eu rhan, ar y ddealltwriaeth y dylai'r dirprwy fod â gwybodaeth ddigonol ac yn gallu cyfrannu at drafodaethau gyda'r awdurdod angenrheidiol.

---

Cylch gwaith:

Bydd y Grŵp Trosolwg Strategol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sicrhau bod y Brifysgol yn bodloni ei rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan fodloni ac ymgorffori'r Ddeddf Cydraddoldeb, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y Grŵp yn meithrin cymuned ddysgu a gweithio gynhwysol sy'n rhydd rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, lle caiff yr holl staff a dysgwyr eu cefnogi, gan deimlo eu bod yn cael eu parchu ac yn gallu cyflawni eu potensial.

Cylch gorchwyl:

Darparu trosolwg a chyfeiriad strategol mewn perthynas â gweithgareddau blaenoriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y Brifysgol a nodi meysydd blaenoriaeth eraill at y dyfodol

Ystyried a llunio argymhellion i'w cymeradwyo gan Grŵp Gweithredol y Brifysgol, neu gan bwyllgor llywodraethu drwy Grŵp Gweithredol y Brifysgol:

i. Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol, a sicrhau bod effaith polisïau a chynlluniau gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei hyrwyddo, gweithredu a monitro.
ii. Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Brifysgol sy'n amlinellu'r cynnydd y mae Prifysgol Aberystwyth yn ei wneud o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
iii. Yr Adroddiad Blynyddol ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, ac ystyriaeth o adroddiadau bwlch cyflog eraill
iv. Adolygiad Cyflog Cyfartal y Brifysgol a gynhelir bob pum mlynedd i sicrhau bod gan y Brifysgol system tâl a chydnabyddiaeth deg sy'n gwobrwyo staff â chyflog cyfartal am gyflawni gwaith cyfartal.

Ystyried a meddu ar awdurdod i adolygu a chymeradwyo ar ran Grŵp Gweithredol y Brifysgol:

i. Fel bo'r angen, comisiynu darnau o waith a fydd yn cefnogi'r Brifysgol i gyflawni ei chyfrifoldebau a gwella perfformiad y Brifysgol o ran materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Derbyn adroddiadau er gwybodaeth, a chynghori Grŵp Gweithredol y Brifysgol, neu bwyllgor llywodraethu drwy Grŵp Gweithredol y Brifysgol, fel y bo'n briodol ar y canlynol:

ii. Y defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a phrosesau cysylltiedig ar draws y Brifysgol;
iii. Anghenion a deunyddiau hyfforddi, gan gynnwys monitro cyfraddau cwblhau
iv. Monitro datblygiadau ledled y sector yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a'u rhoi ar waith fel y bo'n briodol i arfer gorau'r sector.
v. Diweddariadau a chamau gweithredu sy'n codi o rwydwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y staff
vi. Unrhyw fentrau penodol newydd sydd angen gweithredu arnynt - er enghraifft ymateb PA i'r REF

Goruchwylio cyswllt y Brifysgol â'i pherthnasoedd â chyrff allanol perthnasol a'u cryfhau.

Gweithredu:

Trefnir dau gyfarfod o'r Pwyllgor ym mhob blwyddyn academaidd. Er hynny, fel y gwêl y Cadeirydd yn dda, gall y Pwyllgor Buddsoddiadau gyflawni ei ddyletswyddau drwy gyfrwng cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor, neu drwy ohebiaeth electronig rhwng aelodau'r Pwyllgor. Bydd y cyfryw benderfyniadau a wneir y tu allan i gyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor yn cael eu dogfennu'n llawn, a chyflwynir adroddiad arnynt i gyfarfod llawn nesaf y Pwyllgor Buddsoddiadau.

Bydd y Pwyllgor yn cytuno ar adroddiad blynyddol ac yn ei gyflwyno i'r Cyngor ar berfformiad y buddsoddiadau, gan gynnwys eu perfformiad yn erbyn meincnodau y mae'r Pwyllgor wedi cytuno arnynt. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys asesiad o berfformiad y Cynghorwyr Buddsoddi.

Gall y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol wneud penderfyniadau buddsoddi o ddydd i ddydd drwy ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor, o fewn ffiniau Polisi Rheoli'r Trysorlys a'r Polisi Buddsoddi fel y cytunwyd arnynt gan y Cyngor. Cyflwynir adroddiad ar unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn hyn o beth i gyfarfod llawn nesaf y Pwyllgor.